



# EIP WALES

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success



menter  
a busnes

## Cynhyrchu llaeth dafad diogel o ansawdd sy'n addas i bobl ei fwyta/yfed:

Er mwyn cynhyrchu llaeth diogel o ansawdd sy'n addas i bobl ei fwyta/yfed, mae angen rhoi sylw i bob agwedd ar y broses, yn bennaf, y famog a'i statws iechyd, y godrwyr a'r drefn odro, y peiriant a'r parlwr godro, gan gynnwys y tanc llaeth a'r holl gydrannau cysylltiedig.

### Y Famog

Dylai sgôr cyflwr corff y famog fod yn dda pan fydd yn dechrau llaetha (3-3.5 lle bo'n bosibl, yn dibynnu ar faint o wŷn mae'n eu cario) a dylai iechyd cyffredinol a iechyd y pwrs fod yn dda. Dylid darparu maeth priodol yn ystod y cyfnod sych i sicrhau bod y pwrs yn datblygu'n dda, a bod statws metabolaidd ac imiwolegol yn dda. Yna dylai'r plân maeth gynyddu ymhellach i sicrhau na fydd sgôr cyflwr y corff yn gostwng yn sylweddol pan fydd lefel cynrychiant llaeth ar ei uchaf. Pan fydd y famog yn pori glaswellt, dylai twf a maint y glaswellt sydd ar gael gael eu cyfrifo'n rheolaidd gan ddefnyddio mesurydd plât. Dylid ystyried cynnig silwair neu ddwysfwyd ychwanegol a thrafod hyn gydag ymgynghorydd maeth pob fferm. Dylid darparu digonedd o ddŵr glân, ffres bob amser!

Ar ôl wyna, byddai gadael yr wŷn gyda'u mamau am gyfnod amser hir yn lleihau faint o laeth sydd ar gael i bobl a bydd hefyd yn golygu bod mwy o risg i'r famog gael mastitis gan fod yr wŷn yn sugno sawl gwaith y dydd (a hynny'n eithaf ymosodol weithiau). Gall gwahanu'r fam a'r wŷn yn hwyr hefyd achosi mwy o straen iddynt oherwydd eu bod wedi creu perthynas agos. Wedi dweud hyn, mae rhai diadelloedd yn cynhyrchu llaeth yn llwyddiannus pan fydd mamogiaid ac wŷn yn cyd-redeg gyda'i gilydd am gyfnodau hir (e.e. diadelloedd defaid Roquefort yn rhanbarth Roquefort, Ffrainc), a hynny weithiau nes bydd yr wŷn wedi cael eu diddyfnu. Mae'r wŷn sy'n cael eu gwerthu yn ffynhonnell incwm ychwanegol i'r fferm, felly mae'r penderfyniad ynglŷn â'r amser cywir i wahanu'r famog a'r oen yn fater unigol i bob fferm, yn dibynnu ar arferion rheoli, athroniaeth, a nodau cyffredinol.

Yn ystod y cyfnod llaetha, dylai mamogiaid gael eu cadw'n lân ac yn sych lle bynnag yn bo'n bosibl oherwydd gall pyrsiau a thethi budr gynyddu'r siawns y bydd bacteria yn mynd i mewn i diwb y deth wrth odro. Wrth odro pob mamog, dylid archwilio'r pwrs am unrhyw arwyddion amlwg a chlinigol o fastitis (gweler Ffigur 4).

Bydd mastitis is-glinigol, nad yw'n weladwy, yn cael effaith negyddol hefyd ar gyfansoddiad llaeth (lefel cyfanswm y solidau sy'n cynnwys braster menyn, protein, a lactos yn bennaf). Y dull o ganfod yr achosion "cudd" hyn yw drwy fonitro lefelau'r Cyfrif Celloedd Somatig (SCC) yn llaeth pob mamog unigol. Gellid gwneud hyn drwy gymryd samplau llaeth bob mis, neu bob dau fis, a'u hanfon i labordy neu filfeddygfa i gael eu profi ond gallai'r godrwy'r eu gwerthuso yn ystod amser godro hefyd drwy ddefnyddio Prawf Mastitis California neu CMT (California Mastitis Test). Mae'r prawf CMT yn rhoi gwerthusiad ansoddol o sampl bach o bob mamog unigol.

Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y Cyfrif Celloedd Somatig (SCC), fel oedran, esgoredd, cyfnod llaetha a ffactorau eraill, a gall y cyfrif fod yn uchel ar brydiau hyd yn oed os nad oes haint ar y pwrs. Wrth fonitro SCC, mae'r duedd yn bwysicach nag un mesur unigol, ond unwaith y daw'n amlwg bod gan famog gyfrif SCC uchel parhaus (dros 500,000 cell/ml), neu pan fydd arwyddion o fastitis clinigol yn amlwg, dylai'r llaeth gael ei feithrin i adnabod y bacteriwm achosol. Dylai'r canlyniadau gael eu dehongli ar y cyd â milfeddyg y fferm i benderfynu ar y driniaeth gywir os yn gymwys.

Ni fydd rhai achosion cronig yn ymateb i driniaethau ac mae perygl y bydd haint yn cael ei drosglwyddo o'r famog heintus i famogiaid eraill drwy'r peiriant godro. Mae'n well symud y mamogiaid â haint cronig o'r ddiadell.



Ffigur 1: CMT yn dangos llaeth gwaedlyd - nid yw bob amser yn arwydd o haint.

Ffig 2: Sampl cyfrif celloedd positif, gludiog

Pan fydd mamogiaid yn cael eu cadw ar laswellt, dylid eu monitro am bresenoldeb llyngyr yr iau (Trematod) a Haemonchus Contortus, Nematod gastroberfeddol, sy'n sugno gwaed ac sydd hefyd yn cael ei alw'n llyngyr "Polyn y Barbwr". Mae'r ddau yn cael effaith negyddol ar gynhyrchiant llaeth ac iechyd cyffredinol y famog a gallant achosi marwolaeth os na fyddant yn cael eu canfod a'u trin.

Byddai cyflyrau afiechyd cyffredin eraill, fel cloffni, yn lleihau cynhyrchiant ac yn gostwng ansawdd llaeth a dylid cael diagnosis a'u trin yn gyflym.

Mae clefydon cronig na ellir eu gwella, fel Maedi Visna, Adenomatosis ysgyfeiniol defaid (OPA) a Paratuberculosis, neu "Glefyd Johne", yn aml yn cael eu disgrifio fel clefydau "Cudd" neu glefydau "Mynydd Iâ" gan fod eu harwyddion clinigol yn annelwig. Byddai'r clefydau hyn yn ddiethriad yn arwain at leihau cynhyrchiant llaeth ac yn gostwng ei ansawdd. Bydd cyflwr corff y mamogiaid sydd wedi'u heffeithio yn dirywio dros amser, byddant yn cynhyrchu llaeth am lai o gyfnodau llaetha, ac yn cael eu difa'n gynharach nag aelodau iach y ddiadell. Mae "Glefyd Johne" yn cael ei ystyried hefyd fel ffactor sy'n cyfrannu at achosion o "glefyd Crohn" mewn pobl. Mae buchesi godro yn cael eu monitro'n rheolaidd am bresenoldeb clefyd Johne yn y fuches ac mae buchesi sy'n cael canlyniadau uchel yn y profion gwrthgyrff yn cael eu difa. Os amheuir bod achosion o'r clefyd, dylid ymchwilio i'r achosion hyn a'u monitro a rhoi cynlluniau rheoli yn eu lle i atal lledaeniad y clefyd, diogelu lles anifeiliaid a cholledion cynhyrchiant.

### **Staff y fferm**

Staff y fferm yw'r rhai cyntaf i ddod i gysylltiad â'r ddiadell odro. Dylent oll dderbyn hyfforddiant lefel uchel mewn hwsmonaeth a rheolaeth anifeiliaid, a bod yn ymwybodol bob amser o anghenion cyffredinol yr anifeiliaid, eu hiechyd a'u lles.

Pan fyddant yn y parlwr godro, dylai aelodau staff ymddwyn yn ddigynnwrf a cheisio sicrhau bod y parlwr a'r drefn odro yn cael eu rhedeg yn hwylus. Bydd straen yn cael effaith negyddol ar gynhyrchiant yr anifail. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â'r broses odro fod yn gyfarwydd â'r drefn odro a derbyn hyfforddiant i redeg y parlwr godro.

Dylid gosod amseroedd godro penodol a chadw at drefn odro. Dylai godrwyr wisgo menig i leihau'r perygl o heintiau ym mhwsr y ddafad wrth odro, a dylid golchi dwylo â menig a'u diheintio os byddant yn fudr. Bydd pwrs pob dafad yn cael ei archwilio am arwyddion o fastitis, bydd y tethi yn cael eu sychu a'u glanhau â chadach neu bapur untro, tafladwy, glân, a bydd llaeth yn cael ei stripio o bob hanner a'i gasglu mewn cwpan gasglu i nodi unrhyw newidiadau yn y llaeth, fel afliwiad a tholchennau.

Byddai rhai ffermydd yn defnyddio tyweli amldefnydd sy'n cael eu golchi mewn peiriant, gyda diheintydd, ar dymheredd uchel, rhwng pob sesiwn godro. Dylid sychu'r tyweli amldefnydd hyn yn drylwyr cyn eu defnyddio neu gallant halogi'r pwrs. Mae sychu'r pwrs yn rhan o'r broses o baratoi'r famog ar gyfer ei godro a byddai hyn yn helpu i ryddhau'r llaeth a byrhau amseroedd godro. Wedi dweud hyn, os yw mamogiaid yn dod i mewn i gael eu godro gyda phyrtsiau sych, glân, byddai'n well lleihau'r cyswllt gyda'r pwrs a'i sychu cyn lleied â phosibl.

Yn achos diadelloedd gyda lefel uchel o fastitis amgylcheddol, dylid defnyddio dip tethi cyn-godro "sy'n lladd yn gyflym" yn gyntaf, cyn sychu'r tethi a gosod y clwstwr godro yn ei lle. Ar y cyfan, mae lefelau mastitis amgylcheddol clinigol yn is mewn diadelloedd defaid na mewn buchesi llaeth felly nid yw'r defnydd o dip tethi cyn-godro yn cael ei argymhell yn aml.


Yn ystod y broses odro, dylai staff sylwi ar unrhyw glystyrau sydd wedi llithro a'u cywiro er mwyn atal gwasgedd rhag gostwng gan achosi i facteria gael ei chwistrellu i fyny tiwb y deth. Ar ôl godro, os nad oes offer tynnu Clystyrau Awtomatig (ACRs) wedi'u gosod, dylid cau'r llinell gwactod cyn tynnu'r clwstwr. Dylid gofalu nad yw'r mamogiaid yn cael eu "gor-odro". Dylid dipio'r tethi mewn "Dip ôl-odro" gan ddefnyddio cwpan yn hytrach na chwistrell. Bydd y dip yn teithio i fyny tiwb y deth (drwy "rym capilari") gan leihau faint o facteria sy'n bresennol, a thrwy hynny lleihau'r perygl o fastitis. Nid oes llawer o dipiau tethi wedi'u trwyddedu ar gyfer eu defnyddio mewn defaid godro yn y DU, ond mae dipiau tethi buchod yn cael eu defnyddio'n aml.

The current authorised products						
Product name	MA holder	VM number	Active substances ▲	Target species	Distribution category	Territory
Suredip 0.74% w/v Teat Dip/Teat Spray, Solution – Ready to Use	GEA Farm Technologies (UK) Ltd	01808/4006	Chlorhexidine Gluconate	Cattle	AVM-GSL	United Kingdom
				Goats		
				Sheep		
Sensospray 70V 0.74% w/v Teat Dip / Teat Spray, Solution - Ready to Use	GEA Farm Technologies (UK) Ltd	01808/4018	Chlorhexidine Gluconate	Cattle	AVM-GSL	United Kingdom
				Goats		
				Sheep		
Luxspray 50V 0.5% w/v Teat Dip / Teat Spray, Solution - Ready to Use	GEA Farm Technologies (UK) Ltd	01808/4017	Iodine	Cattle	AVM-GSL	United Kingdom
				Goats		
				Sheep		
Silkidip 0.5% w/v Teat Dip/Teat Spray, Solution - Ready to Use	GEA Farm Technologies (UK) Ltd	01808/4009	Iodine	Cattle	AVM-GSL	United Kingdom
				Goats		
				Sheep		
Clinidip L Concentrate 2.0% w/v Concentrate for Teat Dip or Teat Spray Solution	GEA Farm Technologies (UK) Ltd	01808/4010	Iodine	Cattle	AVM-GSL	United Kingdom
				Goats		
				Sheep		
Clinidip 2.5 % w/v Superconcentrate Concentrate for Teat Dip or Teat Spray Solution	GEA Farm Technologies (UK) Ltd	01808/4011	Iodine	Cattle	AVM-GSL	United Kingdom
				Goats		
				Sheep		

Tabl 1: Dipiau tethi ôl-odro sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer eu defnyddio ar ddefaid (buchod a geifr) yn y DU.

Dylai staff godro “gyfeirio” anifeiliaid allan o’r parlwr mewn ffordd ddigynnwrf fel nad yw’r anifeiliaid yn cael profiad negyddol.

Yn wahanol i barlyrau godro gwartheg, mae parlyrau godro defaid yn aros yn gymharol lân yn ystod y broses odro. Os bydd llawr y ramp godro neu’r clystyrau godro yn mynd yn fudr iawn, dylai staff godro eu glanhau rhwng grwpiau, gan ddefnyddio cyn lleied â phosibl o ddŵr i osgoi “niwl” defnyddau dŵr yn y parlwr.



Ffig 3: Sychu pwrs â chadach tafladwy.



Ffig 4: Tynnu llaeth i archwilio’r llaeth.



Ffig 5: Defnyddio dip ar ôl godro.



Ffig 6: Gorchudd tethi "ôl-dipio".



Ffig 7: Anifeiliaid sych a glân mewn parlwr.



Ffig 8: Sicrhau bod clystyrau wedi'u gosod yn gywir.



Ffig 9: Staff digynnwrf a gwybodus yn gweithio mewn parlwr godro glân a thaclus

### **Parlwr godro**

Nid oes rhaid i'r parlwr fod yn gymhleth ac yn ddrud o anghenraid. Mae llawer i'w ddweud dros gael parlwr syml, wedi'i gynnal yn dda, lle mae llai o siawns o wallau electronig a mecanyddol neu ardaloedd lle gall gweddillion llaeth ollwng a lleihau ansawdd cyffredinol y llaeth drwy gynyddu cyfanswm y cyfrif bacteria.

Bydd offer monitro, eitemau mor syml â mesuryddion llaeth, yn golygu bod modd monitro perfformiad y ddiadell a'r mamogiaid unigol yn well gan helpu ffermwyr defaid godro i ddewis yr anifeiliaid cywir ar gyfer bridio yn y dyfodol.

Dylid cynnal a chadw parlyrau yn fecanyddol yn rheolaidd, a dylid rhoi sylw di-oed i unrhyw wallau a ddaw i'r amlwg. Dylid monitro gosodiadau fel lefelau gwactod a churiadau yn gyson a'u cadw o fewn y terfynau a argymhellir.

Dylid cadw'r holl offer yn lân ac mewn cyflwr gweithio da. Dylid newid y leineri godro (cwpanau) yn rheolaidd yn unol â'r hyn a argymhellir gan y gwneuthurwr. Os na fydd leineri yn cael eu newid mewn pryd, bydd eu harwyneb yn diraddio a byddant yn gallu cuddio mwy o facteria a allai fynd i mewn i'r pwrs ac achosi mastitis clinigol neu is-glinigol, gan effeithio ar ansawdd y llaeth a chynhyrchiant ac achosi poen a dioddefaint i'r anifail.



## Y drefn lanhau

Dylai'r holl offer ag arwynebau sy'n dod i gysylltiad â llaeth gael eu glanhau bob tro ar ôl godro. Dylai unrhyw gydrannau sy'n anodd eu glanhau gael eu harchwilio bob dydd i sicrhau bod yr arwynebau yn lân.

### Peiriannau godro (*glanhau â llaw*)

1. Ar ôl godro, dylid sgwrio'r holl weddillion sydd ar ochr allanol cwpanau'r tethi, crafangau, tiwbiau gollwng a rwber gyda hydoddiant cynnes o lanedydd alcaliaidd a dŵr.
2. Diffoddwch gyflenwad dŵr yr oerwr platiau.
3. Rinsiwch â dŵr oer; gadewch i tua 10 litr o ddŵr oer neu gynnes lifo drwy pob clwstwr i'r peiriant.
4. Tynnwch i'r hidlydd llaeth a'i lanhau. Os yw oerwr platiau yn cael ei ddefnyddio, tynnwch yr hidlydd nes i chi gwblhau'r broses lanhau.
5. Golchwch â glanedydd (dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar label cynhwysydd y glanedydd o ran tymheredd y dŵr a faint o lanedydd dylid ei ddefnyddio). Gadewch i tua 5 litr o ddŵr redeg drwy bob set o gwpanau. Codwch bob clwstwr allan o'r hylif ac yna ei roi yn ôl yn yr hylif nifer o weithiau i sicrhau llif tyrfol yn ystod y broses hon.

Yn gyffredinol, argymhellir eich bod yn:

defnyddio asid yn y bore ac alcalin yn y nos,  
neu alcalin 12 gwaith ac asid ddwy waith yr wythnos.

6. Rinsiad olaf: gadewch i o leiaf 5 litr o ddŵr ar dymheredd o 90°C o leiaf, redeg drwy bob clwstwr i roi rinsiad olaf.
7. Ar ôl y rinsiad olaf, gadewch i'r peiriannau redeg o dan wactod am 2 funud cyn eu diffodd i dynnu lleithder o'r pwmp gwactod a'i adael wedi'i ail-iro.
8. Tynnwch yr holl blygiau a'r llabedi rhyddhau ac agorwch y pwyntiau draenio fel bod popeth yn sychu yn yr aer rhwng pob sesiwn odro, ac yna
9. Tynnwch y rhyddhau'r a'i lanhau â llaw os oes angen.

### Peiriant Godro (*glanhau â pheiriant*)

Defnyddiwch lanedydd cyffredinol sy'n cynhyrchu lefel isel/canolig o ewyn ac sy'n addas ar gyfer glanhau cylchred. Gall glanedyddion sy'n cynhyrchu lefel canolig/uchel o ewyn gynhyrchu gormod o ewyn wrth lanhau cylchred. Y gweithdrefnau glanhau sylfaenol yn y fan a'r lle, a all amrywio mewn amodau penodol, yw:

1. Dilynwch y camau a nodwyd ym mharagraffau 1, 2, 3 a 4 o'r drefn Glanhau Peiriannau Godro (*glanhau â llaw*).
2. Tynnwch yr eitemau hynny na ellir eu glanhau drwy lanhau'r gylchred, neu sy'n cyfyngu ar gyflymder (llif) yr hydoddiad glanhau, ac ewch ati i'w glanhau ar wahân.
3. Ar ôl trefnu'r peiriannau ar gyfer glanhau'r gylchred, cylchredwch â dŵr oer ac yna glanedydd ar y tymereddau canlynol:
  - a) 60-80 °C pan ddefnyddir glanedydd cyffredinol alcalin, neu
  - b) 80-90 °C pan ddefnyddir glanedydd asid.

**SYLWER:** Bydd llenwi'r peiriant yn lleihau effaith colli gwres ac effaith yr hydoddiant glanedydd.

4. Gadewch i'r hydoddiant glanedydd gylchredeg am tua 3 munud, gan adael i'r 10 litr cyntaf fynd i'r dŵr gwastraff. Os bydd tymheredd yr hydoddiant ger allfa'r llinell dychwelyd yn gostwng o dan 60 gradd C, dylid rhoi'r gorau i gylchredeg gan y gall gweddillion llaeth gael eu hailddyddodi. Dylid cynnal llif digonol a thyrfol yn y bibell (e.e. drwy ddefnyddio falf ymchwyddiad) i lanhau'n effeithiol.
5. Gadewch i'r hydoddiant glanedydd wagio o'r gylchred, ac yna
6. Gadewch i ddŵr poeth (o leiaf 90 °C) redeg o'r mewnlif drwy'r peiriannau cyn draenio fel dŵr gwastraff. Peidiwch ag ailgylchu'r dŵr hwn.

Dylai protocolau cylch golchi'r parlwr a'r drefn lanhau gyffredinol gael eu harddangos yn amlwg a dylai'r holl staff godro fod yn gyfarwydd â threfn lanhau'r parlwr.

Dylid defnyddio cemegion sy'n cael eu hargymell gan wneuthurwr y parlwr godro yn y gylchred lanhau. Rhaid storio cemegion yn ddiogel a staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn unig ddylai eu defnyddio.

Mae'n bwysig sicrhau bod digon o ddŵr ar gael bob amser i gwblhau pob cylchred a bod tymheredd y dŵr, dros 90°C ar ddechrau'r gylchred a 60°C ar ddiwedd y gylchred, yn cael ei gynnal.

## Tanc Llaeth

Mae angen glanhau'r tanc llaeth yn rheolaidd a'i fonitro i sicrhau bod modd oeri'r llaeth i 10°C cyn pen awr a chyrraedd 4.4°C mewn dwy awr. Gan fod llaeth dafad ar ffermydd bach a chanolig eu maint yn aml yn cael ei storio yn y tanc am 3-4 diwrnod, dylid gostwng tymheredd y llaeth a'i gadw ar 2.5°C. Dylid monitro tymheredd y llaeth yn gyson i sicrhau ei fod yn cadw o fewn targed y diwydiant. Dylai'r system rybuddio os oes unrhyw newidiadau yn nhymeredd y llaeth dros 8-9°C am gyfnod o dair awr neu ragor.

Yn ddelfrydol, dylai proseswyr gasglu llaeth yn ddyddiol neu bob yn ail ddiwrnod o leiaf i sicrhau ei ansawdd. Er bod y llaeth yn cael ei oeri i 2.5°C, gallai rhai mathau o facteria seicroffilig, fel *Pseudomonas*, oroesi a lluosogi mewn tymheredd oer, heb fawr o gystadleuaeth gan facteria eraill.

Bydd proseswyr llaeth yn anfon samplau llaeth o bob llwyth i labordy i gael eu dadansoddi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw facteria pathogaidd fel *Salmonella*, *Listeria Monocytogenes* ac *E.coli 0157* yn bresennol yn y llaeth.

Rhaid cyfrif platiau aerobaidd hefyd i fonitro nifer cyffredinol y bacteria yn y llaeth. Byddai cyfrifiadau bacteria Coliform yn rhoi gwybodaeth am halogiad bacteria amgylcheddol posibl gan awgrymu problemau posibl â hylendid y drefn odro. Byddai cyfrif *Staph. Aureus* yn arwydd bod heintiau bacteriaidd cyffwrdd-ymledol y pwrs yn y ddiadell.

Dylid profi llaeth yn rheolaidd hefyd ar gyfer unrhyw sylweddau ataliol fel gwrthfotigau, meddyginiaethau lleddfdu poen (NSAIDS), atal llyngyr, ac eraill. Dylai anifeiliaid sy'n cael eu trin ag unrhyw feddyginiaeth gael eu nodi'n glir a dylai aelodau staff wybod pa anifeiliaid sy'n cael eu trin yn ogystal â'r driniaeth sy'n cael ei rhoi. Rhaid cofnodi'r holl driniaethau yn y cofnodion meddyginiaethau. Dylid nodi ac arsylwi ar unrhyw gyfnodau pan fydd llaeth yn cael ei ddal yn ôl. Rhaid profi llaeth yr anifeiliaid hyn ar y fferm (gan ddefnyddio "Delvo" neu becyn profi arall), neu ei anfon i labordy i gael cadarnhad, ar ôl i'r cyfnod atal llaeth ddod i ben, cyn y gall fynd yn ôl i'r tanc llaeth.



Ffig 10: Storio cemegion golchi'r gylchred yn ddiogel Ffig 11: Parlwr ac offer glân.



Ffig 12: Clystyrau yn sychu ar ôl eu golchi.

Ffig 13: Mesurwyr llaeth glân.

Bydd cyfathrebu da rhwng yr holl staff ar y fferm, milfeddyg y fferm a'r ymgynghorydd maeth, y prosesydd llaeth a'r labordy sy'n profi am ansawdd y llaeth, oll yn cyfrannu at well canlyniadau iechyd, lles a chynhyrchiant. Bydd glendid, hylendid da a sylw i fanylion gan bawb sy'n gysylltiedig â godro, rheoli a hwsmonaeth y ddiadell yn helpu i hybu'r broses o gynhyrchu llaeth diogel, o ansawdd, sy'n addas i bobl ei fwyta/yfed.